# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Dafydd Llwyd

Dyddiad yr arolygiad: 15/06/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Dafydd Llwyd yn gymuned ddysgu gynhwysol a gofalgar lle mae perthnasoedd cadarn rhwng staff a disgyblion yn sail gadarn i'w gwaith. Mae ymdeimlad cryf o berthyn yn nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol. Bron yn ddieithriad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn dangos ymddygiad da iawn ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu o oedran cynnar.

Mae'r Gymraeg a Chymreictod yn rhan annatod o ethos a bywyd yr ysgol. Er mai ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol yn siarad Cymraeg, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau'n gadarn ac yn defnyddio'r iaith gyda hyder cynyddol mewn ystod eang o gyd-destunau creadigol. Mae hyn yn un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rheini o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyson mewn ystod eang o fedrau. Er hyn, nid yw cynllunio athrawon bob amser yn sicrhau dilyniant digon clir yn natblygiad medrau rhifedd disgyblion dros amser.

Mae ymrwymiad arweinwyr i hyrwyddo lles disgyblion a staff yn nodwedd gref o'u gwaith dyddiol. Trwy gyfleoedd arwain cynhwysol a mentrau gwerthfawr fel sesiynau 'Gwener Gwych', mae disgyblion yn datblygu medrau bywyd pwysig, magu hyder ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymuned yr ysgol. Ar yr un pryd, mae trefniadau cadarn ar waith i gefnogi cynnydd disgyblion sydd ag ADY.

Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn bwrpasol. Mae'r staff yn manteisio'n effeithiol ar gyfraniadau gwerthfawr rhieni, llywodraethwyr a phartneriaid cymunedol i gyfoethogi profiadau dysgu ac ehangu gorwelion disgyblion yn fwriadus. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn herio disgyblion yn ddigon cyson nac yn cynnig digon o gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion wneud penderfyniadau annibynnol ynghylch eu dysgu.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a gweledigaeth glir a phwrpasol a chaiff ei gefnogi'n dda gan staff a llywodraethwyr ymroddedig. Gyda'i gilydd, maent wedi sefydlu diwylliant cadarn o hunanwerthuso a gwelliant parhaus sy'n canolbwyntio'n ddiwyro ar les a chynnydd disgyblion.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod profiadau'n herio disgyblion yn briodol ac yn eu cefnogi i wneud dewisiadau ystyrlon am eu dysgu

A2 Cryfhau cynllunio athrawon i sicrhau cynnydd a dilyniant clir yn natblygiad medrau rhifedd disgyblion dros amser.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026